Afasic GeirfA

Oedi mewn datblygu iaith / anhwylder datblygu iaith

Beth yw oedi mewn datblygu iaith/anhwylder datblygu iaith?

Defnyddir y termau hyn fel cyfystyron yn aml i ddisgrifio problemau cyffredinol plant nad yw eu hiaith yn datblygu yn ôl y disgwyl o ystyried eu hoed, er bod eu datblygiad mewn meysydd eraill yn ymddangos yn briodol. Ymadrodd arall a ddefnyddir yn aml fel term cyffredinol yw **nam iaith penodol**.

Y gwahaniaeth pwysig i'w amgyffred yw'r gwahaniaeth rhwng **oedi** ac **anhwylder.** Wrth i blant ddatblygu eu gallu i ddefnyddio iaith, bydd eu defnydd o synau yn eu hiaith lafar, eu brawddegau, eu geiriau a'r hyn y byddant yn dewis ei ddweud yn newid. Ar y dechrau gellir ymddangos eu bod yn gwneud camgymeriadau, ond yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw eu bod yn defnyddio'u gallu ar y pryd yn llawn. Mae'r camgymeriadau hyn yn rhan o ddysgu. Mae rhai ohonynt yn gyffredin iawn a disgwylir i bob plentyn eu gwneud. Mae'r agweddau amrywiol ar iaith hefyd yn datblygu mewn ffordd drefnus. Bydd plant yn gyffredinol yn dysgu synau, geiriau a brawddegau penodol cyn eraill.

Gelwir iaith plant sy'n parhau i wneud y camgymeriadau cyffredin ac y mae eu hiaith yn datblygu'n araf mewn trefn gyffredin yn iaith wedi **oedi**. Gelwir iaith plant sy'n gwneud y camgymeriad anghyffredin neu y mae eu hiaith yn datblygu mewn trefn anarferol yn **anhwylder**. Bydd angen asesiad gan therapydd lleferydd ac iaith er mwyn nodi'r gwahaniaeth hwn.

Nid yw bob amser yn bosibl ar y dechrau dweud a yw iaith plentyn wedi oedi neu a oes anhwylder arno. Gall oedi cynnar unioni ei hun – ond mae'n bosibl mai anhwylder ydyw.

Oedi mewn datblygu iaith

Mae hwn yn disgrifio oedi ysgafn neu ddifrifol yn natblygiad iaith y plentyn, ond unwaith y bydd iaith y plentyn yn ymddangos, bydd yn datblygu'n normal mewn trefn ac mewn patrwm.

Anhwylder datblygu iaith

Mae hwn yn cyfeirio at ddatblygiad iaith sydd nid yn unig wedi oedi'n ddifrifol ond sydd hefyd yn annodweddiadol ac yn anghyson. Bydd natur anhrefnus eu hiaith yn golygu y bydd yn anodd i'r plant hyn barhau i'w datblygu. Yn ogystal, bydd yn anodd iawn iddynt ymdopi â chyfathrebu a dysgu yn yr ysgol a gartref. Mae iaith yn rhan o bron pob agwedd ar fywyd.

Er bod y termau hyn yn ddefnyddiol, gallant hefyd fod yn gamarweiniol oherwydd ymddengys eu bod yn cyfeirio at blant sydd â'r un math o broblem. Fodd bynnag, mae yna gryn dipyn o amrywiaeth ym mhatrwm a difrifoldeb datblygiad iaith annormal.

Mae datblygiad iaith yn cynnwys nifer o wahanol feysydd – ee dysgu clywed synau iaith lafar, gwneud synau iaith lafar, ystyr geiriau, y defnydd o eiriau a sut y mae geiriau'n cyfuno i wneud gwahanol fathau o frawddegau. Fel arfer bydd yn fwy defnyddiol edrych ar y meysydd lle y mae'r plentyn yn cael anhawster a sut y maent yn effeithio ar ei gilydd. Bydd hyn yn arwain at y cysyniad o nam iaith penodol.

Cyfeiriadau

Byers-Brown, B ac Edwards, M (1989), *Developmental Disorders of Language*, Whurr

Bishop, D a Rosenbloom, L (1987), Childhood language disorders : classification and overview, yn *Language Development and Disorders*, gol. Yule a Rutter, Mackeith Press

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen pellach

Bishop, D a Mogford, K (golygyddion) (1988), *Language Development in Exceptional Circumstances*, Churchill Livingstone

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Nam iaith penodol (1)

Sefydliadau eraill a all helpu

Royal College of Speech and Language Therapists
2 White Hart Yard, London SE1 1NX
Ffôn: 020 7378 1200

NAPLIC (Sefydliad Cenedlaethol y Gweithwyr Proffesiynol sy'n ymwneud â Phlant â Nam Iaith)
14 Heritage Close, Peasedown St John, Bath, BA2 8TJ

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicolegydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.